

Fframwaith Adolygiad

1. Diben

1.1 Diben y papur hwn yw nodi'r fframwaith arfaethedig ynghyd ag amserlen fras ar gyfer cynnal yr Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel a cheisio cytundeb â'n dull er mwyn cwblhau cynllun gweithredu'r adolygiad (enghraifft yn **Atodiad A**).

2. Cefndir

2.1. Cafodd diben, amcanion a chwmpas yr adolygiad eu sefydlu gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn ei ddatganiadau wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 7 Chwefror a 9 Mawrth.

2.2 Mae amodau gorchwyl, dull gweithredu ac aelodaeth y Grŵp Trosolwg wedi'u sefydlu yn dilyn trafod a chytuno ar **Eitem 2**.

2.3 Mae'r fframwaith adolygu drafft hwn wedi cael eu gylchredeg yn flaenorol i holl aelodau arfaethedig gwreiddiol y Grŵp Trosolwg i gael eu sylwadau ac adborth ac mae'r fersiwn hon felly'n adlewyrchu llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd â diolch.

3. Fframwaith

3.1 Yn dilyn sefydlu'r Grŵp Trosolwg ar 21 Mawrth, cynigir datblygu'r adolygiad trwy chwe cham allweddol, y gall rhai ohonynt gydredeg â'i gilydd, sef:

- Diweddarau'r Prosesau Asesu a Chynllunio Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Adolygiad a dadansoddiad bwrdd gwaith o dystiolaeth a data presennol
- Ymgynghori a chyflwyno tystiolaeth newydd (gan gynnwys astudiaethau achos)
- Llunio argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau
- Profi'r argymhellion drafft, neu gynnal gwiriad realiti ohonynt
- Cyhoeddi'r argymhellion terfynol

3.2 Fel a gytunwyd yn yr amodau gorchwyl, bydd yr adolygiad yn defnyddio ac yn dibynnu ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, a adwaenir fel y Pum Ffordd o Weithio, i archwilio fframweithiau (gan gynnwys rhai deddfwriaethol a chyllidebu), strwythurau, polisiau a phrosesau gwasanaethau cyhoeddus presennol. Bydd trywyddau ymholi'n seiliedig ar y dull hwn.

3.3 Bydd yr adolygiad hefyd yn ceisio osgoi creu 'diwydiant adolygu' a cheisio cynyddu i'r eithaf y defnydd o adnoddau presennol a manteisio ar rwydweithiau

a strwythurau presennol, gan ychwanegu dim ond os oes bylchau amlwg i'w llenwi.

3.4 Mae dau ddarn o waith 'sylfaenol' allweddol eisoes wedi cael eu cychwyn gan Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru a thîm yr adolygiad – mapio rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer y cam ymgynghori a sganio'r gorwel i ddarparu'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi yn y DU ac yng Nghymru ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol i wella diogelwch cymunedol. Bydd angen i'r ymarfer mapio rhanddeiliaid ystyried yr 'haenau' sy'n rhan o 'weithio gyda'n gilydd i greu cymunedau mwy diogel' gan y bydd angen i'r mewnbwn ddod o lefelau gweithredol a strategol, oddi wrth 'ddinasyddion', o lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac oddi wrth ymarferwyr, llunwyr polisi ac academyddion.

3.5 Anogir aelodau'r Grŵp Trosolwg i roi cymorth gweithredol i dîm yr adolygiad gynnal y ddwy agwedd sylfaenol trwy:

- Adnabod y sbectrwm eang o ran pwy y mae angen eu cynnwys, ennyn eu hymgysylltiad ac ymgynghori â hwy yn ystod y broses adolygu (yn arbennig 'dinasyddion' – e.e. trwy rwydweithiau ffydd a chydlyniant, rhwydweithiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, rhwydweithiau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol, Fforymau Dioddefwyr, grwpiau Heddlu a Chymunedau gyda'i Gilydd, Panelau Heddlu a Throsedd, fforymau ieuencid, grwpiau gwarchod y gymdogaeth, grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a.y.b.);
- Amlygu datblygiadau deddfwriaethol neu ddatblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg neu sydd yn yr arfaeth a'u heffaith bosibl ar drefniadau yn y dyfodol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol.

3.6 Bydd angen datblygu offer a dulliau priodol ar gyfer ennyn ymgysylltiad a chynnwys 'dinasyddion' ac ystyried y pwyntiau rhyngweithio priodol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys adolygiad bwrdd gwaith o adborth cynnwys dinasyddion gan BGCau yn y cam cychwynol, a chynnwys 'arbenigwyr trwy brofiad' neu ddefnyddwyr gwasanaethau yn y cam ymgynghori.

3.7 Darperir papur sy'n nodi'r methodolegau ac offer manwl a argymhellir ar gyfer cynnal chwe cham yr adolygiad yn **Eitem 4**. Bydd angen i'r Grŵp Trosolwg ystyried unrhyw ofynion posibl o ran adnoddau a fydd yn deillio a sut orau i'w hateb.

3.8 Mae'r argymhellion terfynol a fydd yn cael eu cyflwyno gan y Grŵp Trosolwg i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fel y sail i Ddatganiad yn yr Hydref wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn debygol o ysgogi rhaglen waith bellach a mwy manwl a fydd yn cynnwys, er enghraifft, newidiadau deddfwriaethol, ailalinio cyllidebau a rhaglenni, paratoi a chyhoeddi canllawiau statudol neu ganllawiau eraill. Mae hefyd yn debygol o arwain at sesiynau craffu trwy brosesau pwyllgorau perthnasol y Cynulliad, yn anad dim y Pwyllgor

Cyfrifon Cyhoeddus sydd eisoes wedi ymddiddori'n frwd yn ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2016, *Diogelwch Cymunedol yng Nghymru*. Bydd angen i'r Grŵp Trosolwg fod yn ymwybodol o'r goblygiadau hyn sy'n deillio o'r broses adolygu ei hun a sut orau i'w rheoli – gan gynnwys cynllunio ar gyfer cyfathrebu a rheoli risg yn effeithiol.

4. Amserlen Arfaethedig

4.1 Cynigir bod yr amserlen amlinellol ganlynol ar gyfer y chwe cham yn cael ei chytuno:

| Mis(oedd) | Gweithgareddau |
|-----------------|---|
| Mawrth | Cwblhau'r methodolegau a'r offer, gan gynnwys 'trywyddau ymholi'; adnabod a sicrhau unrhyw adnoddau ychwanegol angenrheidiol; cwblhau ymarfer mapio rhanddeiliaid; dechrau adolygiad/dadansoddiad bwrdd gwaith ac ymarfer sganio'r gorwel; datblygu offer a dulliau cyfathrebu ac ymgynghori; cwblhau'r cynllun gweithredu. |
| Ebrill | Lansio'r adolygiad yn ffurfiol a chyhoeddi dogfennaeth (trywyddau ymholi), cyfathrebu trwy rwydweithiau presennol a sefydledig a chodi ymwybyddiaeth, ysgogi ymgysylltiad â'r adolygiad a chyfranogiad ynddo. |
| Mai-Awst | Allgymorth a chasglu tystiolaeth ac adborth; dadansoddi a drafftio canfyddiadau ac argymhellion; cynllunio a hyrwyddo cyfres derfynol o ddigwyddiadau rhanbarthol |
| Medi | Cyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion drafft; cynnal cyfres derfynol o ddigwyddiadau sioeau teithiol 'gwiriad realiti' amlasiantaeth rhanbarthol; adrodd yn ôl wrth fforymau strategol allweddol. |
| Hydref | Cwblhau'r adolygiad a'r argymhellion, drafftio a chytuno ar Ddatganiad y Gweinidog yn yr Hydref. |
| Tachwedd | Datganiad y Gweinidog yn yr Hydref mewn Sesiwn Lawn; cyhoeddi'r adroddiad ac argymhellion terfynol; dechrau drafftio unrhyw ddeddfwriaeth, canllawiau ac ati sy'n angenrheidiol. |
| Rhagfyr | Y cam cyflawni. |

5. Cynllun Gweithredu

5.1 Cynigir bod y Cynllun Gweithredu drafft yn cael ei gwblhau a'i fabwysiadu gan y Grŵp Trosolwg yn dilyn ystyried a chytuno ar yr argymhellion yn y papur 'Methodolegau Arfaethedig' yn **Eitem 4**.

6. Argymhelliad

6.1 Bod aelodau'r Grŵp Trosolwg yn cymeradwyo'r fframwaith adolygu a nodir yn **adrannau 3 a 4** uchod.